# Agenda - Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
|---|---|
| **Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd** | **Alun Davidson** |
| Dyddiad: Dydd Llun, 25 Medi 2017 | Clerc y Pwyllgor |
| Amser: 14.00 | 0300 200 6565 |
| | SeneddMADY@cynulliad.cymru |

## Rhag-gyfarfod preifat (13.45 - 14.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14.00)

## 2 Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a'i oblygiadau i Gymru - sesiwn dystiolaeth

(14.00-15.30) (Tudalennau 1 - 15)

Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

Piers Bisson, Llywodraeth Cymru

Hugh Rawlings, Llywodraeth Cymru

## 3 Papurau i'w nodi

(15.30-15.40)

**3.1 Papur i'w nodi 1 - Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18**

(Tudalennau 16 - 18)

**3.2 Papur i'w nodi 2 - Gohebiaeth gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) [Saesneg yn unig]**

(Tudalennau 19 - 20)

**3.3 Papur i'w nodi 3 - Gohebiaeth wrth Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**

(Tudalennau 21 - 28)

**3.4 Papur i'w nodi 4 – Gohebiaeth wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch adroddiad y Pwyllgor ar oblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd i borthladdoedd Cymru [Saesneg yn unig]**

(Tudalennau 29 – 30)

**3.5 Papur i'w nodi 5 – Gohebiaeth wrth yr Arglwydd Jay o Ewelme ynghylch yr adroddiad gan Pwyllgor UE Tŷ'r Arglwyddi [Saesneg yn unig]**

(Tudalennau 31 – 32)

**3.6 Papur i'w nodi 6 – Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, 'Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl'**

(Tudalennau 33 – 34)

Gallwch ddod o hyd i bapur Llywodraeth Cymru, 'Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl' yma: https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/2017-09/Brexit%20and%20Fair%20Movement%20of%20People-%28CY%29main_WEB.PDF

**3.7 Papur i'w nodi 7 – Gohebiaeth wrth y Llywydd ynghylch gweithredu Deddf Cymru 2017**

(Tudalennau 35 – 36)

**3.8 Papur i'w nodi 8 – Gohebiaeth wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'r Llywydd ynghylch gweithredu Deddf Cymru 2017 [Saesneg yn unig]**

(Tudalennau 37 – 38)

**3.9 Papur i'w nodi 9 – Gohebiaeth wrth y Prif Weinidog ynghylch gwelliannau Llywodraeth Cymru i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**

(Tudalen 39)

**3.10 Papur i'w nodi 10 – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**

(Tudalennau 40 – 50)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(15.40)

## 5 Goblygiadau'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd i Gymru – monitro'r trafodaethau

(15.40–16.10) (Tudalennau 51 - 67)

## 6 Blaenraglen Waith

(16.10–16.30) (Tudalennau 68 - 71)

# Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Tystiolaeth Ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

## Cyflwyniad

Mae'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol wedi fy ngwahodd i roi tystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar 25 Medi ar faterion sy'n gysylltiedig ag ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Rwyf yn rhagdybio y bydd Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ("y Bil") yn un o'r materion sy'n ganolog i bryderon y pwyllgor, ac mae'r memorandwm hwn yn nodi barn Llywodraeth Cymru am y Bil. Efallai y bydd y Pwyllgor am roi sylw hefyd i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd yn y Cynulliad gan Lywodraeth Cymru yn gynharach y mis hwn.

## Y Bil: trosolwg

Cafodd y Bil ei Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 7 a 11 Medi. Caiff ei ystyried nesaf gan Bwyllgor o'r Tŷ Cyfan ym mis Hydref, pan fydd Senedd y DU yn ailgychwyn ar ôl Toriad Cynhadledd y Pleidiau.

Mae'r Bil yn weddol fyr (fel oedd Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972): 19 o gymalau a 9 o Atodlenni. Mae'r cynnwys yn gyson yn gyffredinol â'r hyn a amlinellir ym Mhapur Gwyn blaenorol Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd ym mis Mawrth. Felly:

- Mae Cymal 1 yn diddymu Deddf 1972.

- Mae Cymalau 2-6 yn darparu i "ddeddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE" *"EU-derived domestic legislation"* (h.y. deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth sydd eisoes mewn grym yn y DU sy'n rhoi effaith i rwymedigaethau sy'n deillio o aelodaeth o'r UE) barhau mewn grym, ac ar gyfer ymgorffori "deddfwriaeth uniongyrchol yr UE" *"direct EU legislation"* (hy deddfwriaeth yr UE, megis rheoliadau, sydd, yn rhinwedd aelodaeth y DU o'r UE, wedi bod yn rhan o gyfraith ddomestig heb yr angen i roi deddfwriaeth ddomestig ar waith) a hawliau eraill cyfraith yr UE etc., megis egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE. Mae'r cyrff hyn o gyfreithiau, ynghyd â rhai deunyddiau eraill, yn ffurfio "cyfraith gadwedig yr UE" *"retained EU law";* effaith y darpariaethau yw trosi crynswth cyfraith yr UE yn gyfraith ddomestig y DU a rhoi effaith iddi ar ôl "diwrnod ymadael" *"exit day"* (sef dyddiad i'w bennu mewn rheoliadau, ond y disgwylir iddo fod ar ddiwedd Mawrth 2019). Daw awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop (ECJ) mewn perthynas â'r corff hwn o gyfreithiau i ben ar y diwrnod ymadael ac wedi hynny.

- Mae Cymalau 7-9 yn rhoi i Weinidogion y Goron bwerau deddfwriaethol dirprwyedig “to prevent, remedy or mitigate (a) any failure of retained EU law to operate effectively, or (b) any other deficiency in retained EU law, arising from …withdrawal…” (hwn yw'r “pŵer cywiro”,*“correcting power”,* sy'n sicrhau y gall cyfraith ddomestig barhau i weithio'n iawn yn union ar ôl y “diwrnod ymadael” *“exit day”*); er mwyn sicrhau cydymffurfio parhaus y DU â'i rhwymedigaethau rhyngwladol yn sgil ymadael; ac i wneud unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol mewn cyfraith ddomestig i roi effaith cyn ymadael i unrhyw gytundeb ymadael sy'n deillio o'r broses o negodiadau'r UE. Mae'r rhain i gyd yn “Bwerau Harri'r Wythfed ”,*“Henry VIII powers”,* gan y byddant yn caniatáu i'r Gweinidogion addasu deddfwriaeth sylfaenol bresennol, yn ogystal ag is-ddeddfwriaeth. Mae'r pwerau yn gyfyngedig o ran amser - mae'r “pŵer cywiro” a'r pŵer rhwymedigaethau rhyngwladol yn peidio â bod ar gael i'r Gweinidogion ddwy flynedd ar ôl “diwrnod ymadael” (h.y. yn ôl yr amserlen a ragwelir ni fyddant bellach ar gael o Ebrill 2021), ac ni all pŵer y cytundeb ymadael ond cael ei arfer cyn diwrnod ymadael. Maent yn ddarostyngedig i nifer o gyfyngiadau penodedig, er enghraifft, ni ellir eu defnyddio i orfodi neu gynyddu trethiant, i ddiwygio'r Ddeddf Hawliau Dynol neu i greu troseddau newydd. Mae Atodlen 7 i'r Bil yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chraffu Seneddol a chymeradwyo offerynnau a wnaed neu sydd i'w gwneud yn rhinwedd y pwerau yn y cymalau hyn.

- Mae Cymalau 10-11, ac Atodlenni 2-3, yn ymwneud â'r goblygiadau ar gyfer y Gweinyddiaethau Datganoledig; maent yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phwerau Gweinidogion gweinyddiaethau datganoledig ac yn gosod terfynau newydd ar gymhwysedd deddfwriaethol gweinyddiaethau datganoledig mewn perthynas â “chyfraith gadwedig yr UE”. Trafodir y darpariaethau hyn ymhellach isod.

- Mae Cymalau 12-19 ac Atodlenni 4-9 yn gwneud ystod o ddarpariaeth dechnegol, yn gwneud darpariaeth ddehongli, ac yn pennu rhychwant awdurdodaeth y Bil (mae'n gymwys i bob rhan o'r DU). Mae Cymal 19 yn ymwneud â chychwyn: daw'r pwerau gwneud gorchmynion yng nghymalau 7-9, a'u darpariaeth gyfatebol ar gyfer Gweinidogion mewn gweinyddiaethau datganoledig, i rym adeg Cydsyniad Brenhinol, ond daw'r mwyafrif o'r rhannau eraill o'r Bil, gan gynnwys cymal 11, i rym trwy reoliadau. Byddem yn disgwyl i'r rheoliadau bennu mai diwrnod ymadael fyddai'r dyddiad i'r darpariaethau ddod i rym.

Gan edrych yn fanylach ar y fframwaith cysyniadol yn y Bil, at ein dibenion ni y cysyniad allweddol yw “cyfraith gadwedig yr UE”. Mae'r Bil yn nodi'r canlynol fel “cyfraith gadwedig yr UE” ar ôl ymadael:

(i) ‘Deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE’, a gaiff ei diogelu , a thrwy hynny ei chadw, o dan gymal 2, sy'n gweithredu fel darpariaeth arbed ar gyfer (ymhlith pethau eraill) offerynnau statudol a wnaed ers 1973 o dan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972;

(ii) Deddfwriaeth uniongyrchol yr UE, a gaiff ei throsi, a thrwy hynny ei chadw yng nghyfraith ddomestig y DU, o dan gymal 3; a holl gyfraith yr UE y gellir ei gorfodi'n uniongyrchol, a gaiff ei throsi, a thrwy hynny ei chadw, o dan gymal 4.

Pwysigrwydd y cysyniad o “gyfraith gadwedig yr UE” yw ei bod yn cael ei defnyddio i helpu i ddiffinio cwmpas pwerau Gweinidogol newydd i addasu'r gyfraith bresennol yng nghyd-destun Brexit ac y bydd yn cyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol yn sgil Brexit.

Mae'r Bil yn darparu tri phŵer dirprwyedig allweddol, y mae pob un ohonynt yn cael ei lunio yng nghyswllt Gweinidog y Goron sy'n gwneud darpariaethau trwy reoliad sy'n “briodol” ym marn y Gweinidog:

1. Pŵer cywiro yng nghymal 7 i fynd i'r afael ag 'any failure of retained EU law to operate effectively' neu ddiffyg (deficiency) arall (term nad yw'r Bil yn ei ddiffinio);
2. Pŵer i wneud darpariaeth i atal neu unioni unrhyw doriad ar rwymedigaethau rhyngwladol sy'n deillio o Brexit yng nghymal 8; a
3. Pŵer i roi'r cytundeb ymadael yng nghymal 9 ar waith.

Ac mae cymal 11 yn gosod cyfyngiad newydd ar gymhwysedd y deddfwrfeydd datganoledig, i'r perwyl na allant (oni bai eu bod yn gallu gwneud hynny cyn y dyddiad ymadael) “modify, or confer power by subordinate legislation to modify, retained EU law”.

## Goblygiadau ar gyfer Datganoli

(a) Pwerau Gweinidogol

Yn ôl Cymal 10 “Schedule 2 confers powers [on devolved administrations’ Ministers] to make regulations…which correspond to the powers conferred [on Ministers of the Crown] by sections 7 to 9”. Yn rhinwedd paragraff 1 o Atodlen 2, mae'n ymddangos y bydd gan Weinidogion Cymru'r un “pwerau cywiro" â Gweinidogion y Goron mewn perthynas â “chyfraith gadwedig yr UE”.

Mae'r rhain yn bwerau Harri'r Wythfed i addasu deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth (yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau ag sy'n gymwys i bwerau Gweinidog y Goron), ac maent yn gyfyngedig o ran amser - ni fyddant ar gael i'w defnyddio tan ar ôl Mawrth 2021. Mae paragraff 2 yn ei gwneud yn glir nad yw pwerau cywiro Gweinidogion Cymru yn ymestyn (ond) i offerynnau addasu o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, p'un a wnaed yr offerynnau

gan y Cynulliad Cenedlaethol, neu gan Weinidogion y Goron neu gan Weinidogion Cymru.

Ond yr hyn sy'n gyfan gwbl annisgwyl, a'r hyn na ellir ei groesawu, yw'r cyfyngiad ar bwerau Gweinidogion gweinyddiaethau datganoledig a ddarperir gan Atodlen 2 paragraff 3. Ni all Gweinidogion Cymru (a Gweinidogion gweinyddiaethau datganoledig eraill) wneud gorchmynion o natur gywiro ond mewn perthynas â deddfwriaeth ddomestig. Os daw'r ddeddfwriaeth sydd mewn grym ar hyn o bryd i'r categori o "ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE" (er enghraifft rheoliadau a wnaed gan sefydliadau'r UE eu hunain), Gweinidogion y DU yn unig all gywiro hyn.

Nid yw'n glir paham y mae'r cyfyngiad hwn yn cael ei gynnig ond mae'n ymddangos y byddai ei effaith ar gwmpas pwerau Gweinidogion Cymru yn sylweddol. Yn ôl ein hasesiad cychwynnol mae rhyw 60% o offerynnau o fewn cymhwysedd datganoledig sy'n gorfod cael eu haddasu o bosibl yn dod o fewn y categori o ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE ac ni fydd modd i Weinidogion Cymru eu cywiro. (Nid yw hyn yn golygu wrth gwrs fod angen eu haddasu i gyd.)

Mae'n ymddangos bod i'r cyfyngiad hwn hefyd ganlyniadau gwrthnysig neu anfwriadol. Efallai ei bod yn ddymunol addasu gwahanol offerynnau o fewn un cynllun rheoleiddio yn yr un ffordd er mwyn delio â phroblem gyffredin, ond mae'r Bil yn llesteirio hyn o bosibl. Er enghraifft, mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (a weithredir gan ddeddfwriaeth ddomestig) yn rhan o'r un cynllun rheoleiddio â'r Rheoliad Llyswennod (a wneir gan yr UE). Byddai modd i Weinidogion Cymru ddiwygio dwy elfen gyntaf y cynllun (cynlluniau ar gyfer safleoedd gwarchodedig ac ansawdd dŵr), gan eu bod wedi'u gweithredu gan ddeddfwriaeth ddomestig, ond ni fyddai modd i Weinidogion Cymru ddiwygio'r drydedd (cynlluniau ynghylch gwarchod llyswennod), sy'n Rheoliad a wnaed gan yr UE. Nid yw hyn yn gwneud fawr o synnwyr.

Mae llaw Gweinidogion Cymru'n cael ei gwanhau ymhellach gan y ffaith bod angen i unrhyw welliant y cynigir ei wneud fod yn gyson â darpariaeth a wneir gan Weinidogion y Goron mewn perthynas â deddfwriaeth uniongyrchol yr UE.

Mae'r pwerau a roddir i Weinidogion gweinyddiaethau datganoledig, i'r graddau y maent yn gorgyffwrdd â phwerau Gweinidogion y Goron, yn gydredol - caiff y naill set o Weinidogion neu'r llall wneud darpariaeth addasu. Mae is-baragraff (2) o baragraff 1 o Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer cydweithio gan Weinidog y Goron a Gweinidogion gweinyddiaeth ddatganoledig. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol ond mae'n arwain at bwynt arall. Mae Rhan 1 o Atodlen 7 i'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer craffu ar offerynnau sy'n cael eu gwneud, neu y cynigir eu gwneud, o dan bwerau dirprwyedig y Bil. Mae'r pennu'r amgylchiadau penodol hynny lle mae angen y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol ac, i bob pwrpas, mae'n dweud bod angen dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol ym mhob achos arall.

Pan fo Gweinidog y Goron sy'n gweithredu ar ei ben ei hun (ddim ar y cyd â Gweinidog gweinyddiaeth ddatganoledig) yn gwneud yr offeryn, wedyn mater i Senedd y DU yw cymhwyso'r weithdrefn briodol; os yw Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pennau eu hunain, mater i'r Cynulliad Cenedlaethol yw cymhwyso'r weithdrefn briodol. Os oes camau ar y cyd yn cael eu cymryd o dan baragraff 1(2) o Atodlen 2, yna, yn rhinwedd paragraff 2 o Atodlen 7, mae Senedd y DU a'r Cynulliad Cenedlaethol yn cymhwyso'r weithdrefn briodol.

Ond fel y nodir uchod, mae pwerau Gweinidogion Cymru yn fwy cyfyngedig mewn perthynas â materion datganoledig na phwerau Gweinidog y Goron (am ei bod y tu hwnt i'w cymhwysedd i addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE) a bydd y cyfryw bwerau ag sydd ganddynt yn gydredol â rhai Gweinidog y Goron yn hytrach nag yn neilltuol iddynt. Os bydd Gweinidog y Goron yn dewis addasu un o Reoliadau'r UE, byddai hwnnw'n offeryn sydd yn gyfan gwbl o fewn cyfrifoldebau craffu Senedd y DU (ni allai unrhyw gwestiwn o gydweithio â Gweinidogion Cymru godi mewn perthynas â deddfwriaeth uniongyrchol yr UE hyd yn oed lle bo'r pwnc o naws ddatganoledig), ac er y gallai Aelodau unigol o'r Cynulliad wneud sylwadau cyhoeddus wrth gwrs, ni fyddai gan y Cynulliad Cenedlaethol fel corff unrhyw lais ffurfiol. Byddai'r un peth yn wir os byddai Gweinidog y Goron yn cymryd camau unioni yn unigol (yn hytrach nag ar y cyd) mewn perthynas â mater, hyd yn oed os byddai o fewn pwerau Gweinidogion Cymru i ddelio ag ef. Byddai'r rhwymedigaeth graffu wedyn yn cael ei chyflawni gan Senedd y DU yn hytrach na'r Cynulliad Cenedlaethol, am y byddai'r camau gweithredu perthnasol yn cael eu cymryd gan Weinidog y Goron.

Yn olaf, dylai'r Pwyllgor nodi y bydd angen addasu'r Atodlen 7A newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru (y rhestr o faterion cadwedig sy'n cael eu creu gan Ddeddf Cymru 2017), am fod rhai o'r diffiniadau o faterion cadwedig yn cyfeirio'n uniongyrchol at ddogfennau'r UE. Y ffordd “arferol” o ddiwygio Atodlen 7A fydd trwy gyfrwng Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; mae angen i unrhyw Orchymyn o'r fath gael ei gymeradwyo ar ffurf ddrafft gan y Cynulliad Cenedlaethol a dau Dŷ'r Senedd cyn cael ei wneud. Ond fel y mae'r Bil Ymadael wedi'i drafftio, gallai'r gwelliannau gael eu gwneud yn yr un ffordd gan Weinidog y Goron o dan gymal 7, ac ni fyddai angen i'r rheoliadau hynny gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol cyn cael eu gwneud. Ym marn Llywodraeth Cymru, dylai unrhyw welliannau a wneir i Atodlen 7A fod trwy gyfrwng proses sy'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i fynegi ei farn ac i benderfynu a yw am roi ei gydsyniad i'r gwelliannau arfaethedig.

(b) <u>Cymhwysedd Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol</u>

Ymdrinnir â'r mater hwn yng nghymal 11, a hynny mewn ffordd sydd yn gyfan gwbl annerbyniol ac anflaengar ym marn Llywodraeth Cymru. Ein gwrthwynebiadau yw yn gyntaf bod y polisi sydd wedi'i adlewyrchu yn y cymal yn niweidiol o bosibl i'r egwyddor o ddatganoli ac yn ail, pe bai'n cael ei roi ar waith fel y mae wedi'i ddrafftio, y canlyniad fyddai setliad datganoli heb eglurder a mwy cymhleth o lawer.

Crynhoir y polisi yn y Bil gan yr Athro Elliott o Brifysgol Caergrawnt:

> "At the moment, devolved legislatures are forbidden from doing things that breach EU law, even if the thing they wish to do concerns a subject-matter that is devolved. When the UK leaves the EU, by default that restriction will go — in effect causing powers to flow from Brussels to the devolved capitals (as well as, in relation to non-devolved and English matters, London). But the Bill erects a diversion, providing that repatriated powers, even when they relate to devolved subjects, will instead go to London. <u>The UK Government will then decide which of them to hand to the devolved institutions, the implication being that some will not be handed over."</u> (ychwanegwyd y pwyslais).

Ni all Llywodraeth Cymru dderbyn ei bod yn briodol i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol gael ei gyfyngu gan y "gwyro" hwn ar bwerau mewn meysydd polisi y bernid hyd yn hyn eu bod yn gyfan gwbl briodol ar gyfer datganoli. Mae polisi o'r fath yn peri bygythiad uniongyrchol i'r egwyddor o ddatganoli fel nodwedd sylfaenol ar gyfansoddiad y DU.

Yn ein dogfen bolisi *Brexit a Datganoli*, cydnabuwyd, mewn perthynas â rhai materion a gynhwysir gan "fframweithiau" polisi penodol, y gallai fod angen dull gweithredu cydgysylltiedig a chytûn rhwng y pedair llywodraeth, er enghraifft i gefnogi gweithredu effeithiol ar draws marchnad y DU ac atal rhwystrau rhag dod i'r amlwg a fyddai'n cyfyngu'n afresymol ar fusnesau. Rydym wedi'i gwneud yn glir ein bod yn barod i ymgysylltu'n adeiladol â gweinyddiaethau eraill ar y materion hyn. Ond mae'r Bil yn rhagweld, yn hytrach, set newydd o gyfyngiadau cyfreithiol ar gymhwysedd y sefydliadau datganoledig mewn perthynas â'r materion hyn, ac mae hyn yn gyfan gwbl annerbyniol inni.

Mae Llywodraeth y DU wedi awgrymu bod y polisi "gwyro" a adlewyrchir yng nghymal 11 yn drosiannol ei natur, ac mai unig fwriad y ddarpariaeth yw caniatáu amser a lle ar gyfer "intensive discussion and consultation with devolved authorities on where lasting common frameworks are needed". Yn gymaint â bod yr holl bwerau Gweinidogol a drafodir uchod yn gyfyngedig o ran amser yn eu gwahanol ffyrdd, mae'n nodedig, er hynny, nad oes unrhyw derfynau amser ar weithrediad cymal 11; nid adlewyrchir ei naws trosiannol honedig ac ni ddarperir ar ei gyfer mewn unrhyw ffordd ar wyneb y Bil. Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn dymuno tynnu ei gasgliadau ei hun ynghylch arwyddocâd yr hepgoriad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwrthod yn sylfaenol y polisi sy'n sail i gymal 11. Ond hyd yn oed pe baem yn derbyn y dull gweithredu hwnnw, byddai gennym bryderon difrifol o hyd am y goblygiadau ar gyfer eglurder a chymhlethdod y setliad datganoli.

Fel y gŵyr y Pwyllgor, mae ein setliad datganoli presennol yn gweithredu ar sail "pwerau wedi'u rhoi" – rhoddir cymhwysedd deddfwriaethol gan San Steffan i'r Cynulliad Cenedlaethol yn unswydd mewn perthynas ag ystod o faterion rhestredig. Bydd Deddf Cymru 2017 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru i beri bod setliad

Cymru'n cydymffurfio â'r Alban trwy weithredu model “cadw pwerau” – y rhagdybiaeth fydd mai yn nwylo'r Cynulliad Cenedlaethol y mae cymhwysedd deddfwriaethol oni bai fod y Ddeddf yn dweud (trwy bennu rhestr o faterion cadwedig) mai San Steffan sy'n cadw cymhwysedd.

O dan y Bil Ymadael, yn nwylo San Steffan y bydd cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â chyfraith gadwedig yr UE ond gellir gwneud Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor yn unol â chymal 11(2) a fydd, trwy ddatgymhwyso'r rheol gyffredinol i unrhyw raddau, i bob pwrpas, yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'r materion y mae'r datgymhwyso'n gymwys iddynt - sef y “trosglwyddo” pwerau y mae'r Athro Elliott yn cyfeirio ato. (Mae Llywodraeth y DU yn cyfeirio at hyn fel “rhyddhau” pwerau.)

Y rhagdybiaeth gychwynnol felly yw mai yn nwylo San Steffan y mae pŵer deddfwriaethol mewn perthynas â chyfraith gadwedig yr UE ond y caiff cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â set o faterion o fewn y categori cyffredinol o gyfraith gadwedig yr UE ei roi i'r Cynulliad Cenedlaethol trwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor.

Y canlyniad cyffredinol mewn perthynas â chyfraith heblaw cyfraith gadwedig yr UE, yw y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithredu o dan fodel cadw pwerau ond mewn perthynas â chyfraith gadwedig yr UE, bydd yn gweithredu yn ei hanfod o dan fath o fodel rhoi pwerau - a'r rheini'n bwerau cadwedig mewn perthynas â'r materion hynny sy'n cael eu rhyddhau trwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor rhag yr egwyddor gyffredinol o gadw cymhwysedd i San Steffan mewn perthynas â chyfraith gadwedig yr UE. Os bwriedir i Lywodraeth y DU gael ei ffordd, gallai'r pwerau a roddir fod yn ddarostyngedig i eithriadau, yn eu tro, i ganiatáu i San Steffan gadw cymhwysedd llwyr mewn perthynas â'r materion hynny lle y bydd “fframweithiau” ar waith.

Ym marn Llywodraeth Cymru, mae hon yn sylfaen hynod o gymhleth a dryslyd ar gyfer adeiladu system o ddatganoli deddfwriaethol sy'n gweithredu'n iawn. Hyd yn oed pe baem yn cytuno â'r polisi y tu ôl i gymal 11, byddai rhaid inni wrthwynebu'n gryf y ffordd y mae'r Bil yn effeithio ar sylfeini strwythurol datganoli, gan ei fod yn gwrthdroi llawer o'r manteision ar gyfer datganoli y mae mabwysiadu model cadw pwerau Deddf Cymru'n anelu at eu creu.

Ymateb Llywodraeth Cymru i’r Bil

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol i Lywodraeth Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â’r Bil, ar 12 Medi. Mae’r Memorandwm yn nodi barn Llywodraeth Cymru am y gofyniad am gydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad mewn perthynas â’r cymalau perthnasol yn y Bil, ac yn cadarnhau na fyddwn mewn sefyllfa i argymell cydsyniad oni chaiff y Bil ei ddiwygio i fynd i’r afael â’n pryderon. Ers hynny, rydym hefyd wedi cyhoeddi, ar y cyd â Llywodraeth yr Alban, gyfres o welliannau arfaethedig sy’n ceisio mynd i’r afael â’r pryderon yr ydym wedi’u codi. Gwnaeth y Prif Weinidog Ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Medi, yn esbonio ein

rhesymau dros gyhoeddi'r gwelliannau hyn sy'n canolbwyntio ar oblygiadau'r Bil ar gyfer y setliadau datganoli, ond nad ydynt yn mynd i'r afael â materion ehangach ynghylch ymadawiad y DU â'r UE.

Rydym yn gobeithio y bydd y gwelliannau awgrymedig hyn yn ddefnyddiol i Seneddwyr, wrth iddynt fynd ati i graffu'n fanwl ar y Bil.

## Casgliad

Bydd y pwyllgor am ffurfio ei farn ei hun am rinweddau'r Bil Ymadael. Fel y mae ein Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn esbonio, am y rhesymau a nodir yn y ddogfen honno ac yn y dystiolaeth ysgrifenedig hon ni fydd Llywodraeth Cymru, o'i rhan hithau'n teimlo y gall gynghori'r Cynulliad Cenedlaethol i roi ei gydsyniad deddfwriaethol i'r Bil fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd. Gwahoddir y pwyllgor i nodi'r casgliad hwnnw.

Mark Drakeford AC

Medi 2017.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid
**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cadeirydd Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

20 Gorffennaf 2017

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19**

Yn ein cyfarfod ar 19 Gorffennaf, cytunodd y Pwyllgor Cyllid ei ddull o graffu ar y gyllideb. Rwy'n ysgrifennu at holl Gadeiryddion y Pwyllgorau i rannu ein syniadau ac i annog eich pwyllgorau i ystyried sut y gallwch gyfrannu at gyflawni'r gwaith craffu mwyaf rhesymegol ac effeithiol ar gynlluniau gwariant y Llywodraeth.

Fel y gwyddoch dyma'r flwyddyn gyntaf y byddwn yn craffu ar y gyllideb ddrafft o dan y Rheolau Sefydlog diwygiedig a'r protocol cysylltiedig. Rwyf wedi trafod hyn gyda Chadeiryddion y Pwyllgorau yn y fforwm Cadeiryddion ar 12 Gorffennaf,

**Rhoi sylw i'r gyllideb**

Rydym wedi cytuno i barhau â'r dull a ddilynwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol, lle mae craffu ar y gyllideb yn canolbwyntio ar y pedair egwyddor o ran craffu ariannol: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phroses. Yr egwyddorion yw:

- **Fforddiadwyedd** – edrych ar y darlun mawr o ran cyfanswm y refeniw a gwariant, ac a oes cydbwysedd priodol;
- **Blaenoriaethu** – a yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd resymol y gellir ei chyfiawnhau?

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

- **Gwerth am arian** – yn y bôn, a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau yn dda – economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (hynny yw) canlyniadau; a
- **Phrosesau'r gyllideb** – a ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch ac a oes integreiddio rhwng cynllunio corfforaethol a chynllunio gwasanaethau, a rheoli perfformiad a rheoli ariannol?

Yn dilyn digwyddiad i randdeiliaid yng Ngogledd Cymru, rydym wedi nodi nifer o feysydd yr hoffem weld y gwaith craffu yn canolbwyntio arnynt, sef:

- *Cyllido byrddau iechyd lleol a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol*
- *dull gweithredu o ran gwariant ataliol, a sut y cynrychiolir hyn wrth ddyrannu adnoddau. (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru ar y galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar);*
- *Cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a thrawsnewid gwasanaethau*
- *polisïau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi a lliniaru effeithiau'r diwygiadau i'r gyfundrefn les*
- *Cynllunio a pharodrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd*
- *Sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau newydd ynghylch trethi a benthyca*
- *Sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o osod blaenoriaethau a dyraniadau cyllid*
- *Sut y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dylanwadu ar y gwaith o lunio polisïau*

Anogir chi i ddefnyddio rhai o'r meysydd hyn fel ffocws eich gwaith craffu ar y gyllideb.

**Ymgynghoriad ar y gyllideb ddrafft**

Yn ôl yr arfer, byddwn yn cynnal ymgynghoriad ar ran yr holl Bwyllgorau yn ystod toriad yr haf a bydd yr ymatebion yn cael eu rhannu gyda chi yn yr hydref er mwyn helpu eich gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft.

**Amserlen**

Fel y gwyddoch erbyn hyn, mae'r dyddiadau ar gyfer y gyllideb ddrafft bellach wedi'u cytuno fel a ganlyn:

- Gosod amlinelliad o'r Gyllideb Ddrafft  – 3 Hydref
- Gosod y Gyllideb Ddrafft fanwl – 24 Hydref
- Dyddiad cau ar gyfer adroddiad y Pwyllgor Cyllid – 28 Tachwedd
- *Y ddadl ar y Gyllideb Ddrafft  – 5 Rhagfyr*
- Cyflwyno Cynnig y Gyllideb Flynyddol  – 19 Rhagfyr

Fel y gwyddoch mae'r darpariaethau mewn perthynas ag adrodd gan bwyllgorau polisi wedi newid, ac rydych yn gallu adrodd yn eich rhinwedd eich hun yn awr (os dymunwch), a gall eich adroddiadau gael eu defnyddio fel dogfen ategol i'r ddadl ar y gyllideb ddrafft.  Fel Pwyllgor, rydym yn ystyried sut y gallwn gynnal rôl strategol, oruchwyliol mewn perthynas â chraffu ariannol, ond yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y gyllideb ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu Bethan Davies, Clerc y Pwyllgor Cyllid ar 0300 200 6372, neu Bethan.Davies@cynulliad.cymru.

Yn gywir

**Simon Thomas**

**Cadeirydd**

UK Government
Llywodraeth y DU

**Rt Hon Alun Cairns MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Gwydyr House | Tŷ Gwydyr
London | Llundain
SW1A 2NP

1 Caspian Point | 1 Pwynt Caspian
Cardiff | Caerdydd
CF10 4DQ

www.gov.uk/wales
www.gov.uk/cymru

David Rees AM
Chair
External Affairs and Additional Legislation Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

Ref: 340SUB 17

30th July 2017

Dear Mr Rees,

Thank you for your letter of 19 July regarding the European Union (Withdrawal) Bill which was introduced into the House of Commons on 13 July.

The Government is committed to ensuring that withdrawal from the EU is a successful and orderly process for Wales and for the whole of the UK. The European Union (Withdrawal) Bill is an essential Bill in delivering this. The Government discussed the Repeal Bill with the Welsh Government before the Bill's introduction and shared a copy of it two weeks in advance. I expect the introduction of the Bill to trigger an intensification of these discussions.

Officials from the UK Government and the Welsh Government have discussed the content of the Welsh Government's White Paper *Securing Wales' Future*. It is clear from those discussions that the UK Government and the Welsh Government share many common outcomes from EU exit. We agree on the need for the freest possible trade access to the EU, on the need to ensure continuity at the point at which the UK leaves the EU, and on the need for UK-wide or GB-wide frameworks in certain areas. These discussions have influenced the drafting of the Bill which supports each of these outcomes.

I am keen to work with the National Assembly for Wales including the External Affairs and Additional Legislation Committee to assist with consideration and scrutiny of the Bill. I would like to reiterate my offer to give evidence to your Committee as we take

this work forward.  We would like all parts of the UK to come together in support of the legislation, which is crucial to delivering the referendum outcome

Yours,

**Rt Hon Alun Cairns MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

National Assembly for Wales
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Eitem 3.3

Y Gwir Anrhydeddus David Davis AS
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Adael yr Undeb Ewropeaidd

31 Gorffennaf 2017

**Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**

Yn ein cyfarfod diwethaf ar 17 Gorffennaf, cafwyd trafodaeth gychwynnol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), a gafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin.

Roeddem yn credu y byddai'n ddefnyddiol tynnu sylw at rai o'n pryderon cychwynnol. Wrth weithio ar y Bil gyda Phwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol y Cynulliad, rydym yn ceisio barn ar y pryderon hyn dros yr haf.

**1. Pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Mae Cymal 11 o'r Bil yn atal cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â chyfraith yr UE. Ar hyn o bryd, rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gydymffurfio â chyfraith yr UE ac mae'r Bil yn dweud y bydd yn rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ar ôl gadael yr UE, gydymffurfio â'r corff o gyfraith yr UE a gaiff ei ymgorffori yng nghyfraith y DU wedyn.

Mae'r Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn dweud mai'r bwriad yw i hyn fod yn drefniant trosiannol cyn penderfynu a oes angen datblygu polisïau cyffredin ai peidio. Nodir y caiff deddfwrfeydd neu weinyddiaethau datganoledig addasu cyfreithiau'r UE a gaiff eu cadw, ond dim ond i'r graddau yr oedd ganddynt gymhwysedd i wneud hynny cyn gadael yr UE. Yn ôl y Nodiadau, mae hyn golygu y bydd sefydliadau datganoledig yn gallu gweithredu yn yr un modd ar ôl gadael yr UE ag yr oeddent yn gweithredu cynt mewn perthynas â'r cyfreithiau UE hynny a gaiff eu cadw.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Fodd bynnag, nid yw'r Bil yn cynnwys unrhyw fwriad tebyg i atal pwerau Senedd San Steffan yn y cyswllt hwn, sy'n golygu bod penderfyniad y DU i adael yr UE yn cael effaith anghyson ar y gwledydd sy'n rhan o'r DU. O ran dod â'r trefniadau trosiannol hyn i ben, mae'r Nodiadau Esboniadol yn dweud yn glir y bydd angen sicrhau cytundeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn penderfynu pa sefydliad fydd â chyfrifoldeb yn y dyfodol.

**Mae'r trefniadau trosiannol hyn felly'n peri pryder inni, ac yn enwedig y ffaith y bydd yn rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru barhau i gydymffurfio â'r cyfreithiau UE hynny a gaiff eu cadw, er na fydd angen i Senedd San Steffan wneud hynny.**

**2. Gweithdrefnau ar gyfer is-ddeddfwriaeth**

Mae'r Bil yn nodi'r weithdrefn sy'n gymwys i reoliadau a wneir o dan y Bil, gan gynnwys rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru a gaiff eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae paragraffau 1(2), 5(2) a 6(2) o Atodlen 7 i'r Bil yn nodi'r rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Mae unrhyw reoliadau eraill yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol (ond gweler hefyd y rheoliadau a wneir mewn achosion brys, er enghraifft o dan baragraff 3 yn Atodlen 7).

**Rydym yn pryderu bod y Bil yn pennu'r weithdrefn y bydd yn rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei defnyddio mewn perthynas â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru mewn meysydd datganoledig ac a gaiff eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a fydd hefyd yn craffu arnynt.**

**Rydym hefyd yn pryderu na fydd y weithdrefn a ddewisir ar gyfer rhai o'r pwerau i wneud rheoliadau yn y Bil yn briodol.**

**3. Pwerau i wneud rheoliadau o dan gymalau 7, 8 a 9 ac Atodlen 2 – hyd a lled y pwerau**

Mae'r pwerau i wneud rheoliadau o dan gymalau 7, 8 a 9 ac Atodlen 2 yn nodi cymysgedd gymhleth o reolau ynghylch pryd y gellir ac na ellir defnyddio'r pwerau.

Mae'r pwerau yng nghymalau 7, 8 a 9 ac Atodlen 2 yn gyfyngedig mewn sawl ffordd. Er enghraifft, yr unig adeg y gellir defnyddio pŵer cymal 7 pŵer yw i ymdrin â methiant neu ddiffyg yng nghyfreithiau'r UE sy'n codi oherwydd y penderfyniad i adael yr UE.  Dim ond i sicrhau cydymffurfiaeth ag ymrwymiadau rhyngwladol oherwydd y penderfyniad i adael yr

UE y gellir defnyddio pŵer cymal 8. Dim ond at ddibenion rhoi'r cytundeb ymadael ar waith y gellir defnyddio pŵer cymal 9.

Mae cyfyngiadau eraill hefyd ynghylch yr hyn y gall y rheoliadau ei wneud. Er enghraifft, ni ellir defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau yng nghymalau 7, 8 a 9 ac Atodlen 2 i godi trethi neu i newid Deddf Hawliau Dynol 1998 (mae'r rhestr lawn o'r cyfyngiadau hyn i'w gweld yng nghymalau 7(6), 8(3) a 9(3).

Fodd bynnag, mae'r Bil yn dweud bod y pŵer i wneud rheoliadau o dan gymalau 7, 8 a 9 ac Atodlen 2 yn cynnwys y pŵer i wneud unrhyw beth y gellid ei wneud drwy basio Deddf Seneddol. Mae hyn yn golygu y gellid defnyddio rheoliadau i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, gan gynnwys deddfwriaeth sylfaenol a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Pwyllgor wedi cymryd diddordeb cryf yn y defnydd o bwerau Harri'r VIII wrth graffu ar Filiau ac, fel mater o egwyddor, mae'n credu y dylid defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol pan ddefnyddir pwerau o'r fath.

Yn ogystal â hyn, gallai Gweinidogion y DU (ond nid Gweinidogion Cymru) ddefnyddio pwerau a roddir iddynt yn y Bil i wneud rheoliadau sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a hynny mewn ffordd sy'n newid pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddai unrhyw reoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol (gweler paragraffau 1 (2) (f), 5 (2) (f) a 6 (2) (f) yn Atodlen 7 i'r Bil).

**Rydym yn pryderu am y canlynol:**

- **a yw'r pwerau i wneud rheoliadau o dan y Bil mor glir ag y gallent fod;**
- **hyd a lled y pwerau ac a ddylid gosod rhagor neu lai o gyfyngiadau arnynt;**
- **a yw hyd a lled y pwerau yng nghymalau 7, 8, 9 ac Atodlen 2 (a'r pwerau canlyniadol a throsiannol yng nghymal 17) yn golygu y gellid eu defnyddio'n amhriodol;**
- **a yw'n briodol i'r Bil roi pŵer i Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau y gellid eu defnyddio i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac**
- **a yw'n briodol i'r Bil roi pŵer i Weinidogion y DU sy'n eu galluogi i wneud rheoliadau a allai newid pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

**4. Pwerau i wneud rheoliadau o dan gymal 7 ac Atodlen 2 - pwerau Gweinidogion y DU o'u cymharu â phwerau Gweinidogion Cymru**

Mae Cymal 7 o'r Bil yn rhoi pwerau eang iawn i Weinidogion y DU sy'n eu galluogi i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurf rheoliadau; bydd y rheoliadau hynny yn gallu gwneud unrhyw beth y gall Deddf Seneddol yn ei wneud, a gellid defnyddio'r rheoliadau hyn felly i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol.

Mae pwerau eang o'r fath bob amser yn creu pryderon cyfansoddiadol, ond mae'r Pwyllgor yn amlygu rhai agweddau ar y pwerau hyn sy'n peri pryder arbennig i Gymru.

Mae'r Bil yn creu'r cysyniad o ymgorffori cyfreithiau'r UE yng nghyfreithiau'r DU, a bydd y rhain yn gymwys yn y DU ar y diwrnod y bydd yn gadael yr UE. Mae'r cyfreithiau hyn yn cynnwys:

- "Deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE" (cymal 2 o'r Bil). Mae'r categori hwn o cyfreithiau'r UE a gaiff eu cadw'n cynnwys yr holl reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru i weithredu cyfraith yr UE yng Nghymru. Er enghraifft, gwnaed Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunydd Lluosogi (Cymru) 2017 gan Weinidogion Cymru i weithredu Cyfarwyddebau'r UE ar farchnata ffrwythau.[1]
- "Deddfwriaeth uniongyrchol yr UE" (cymal 3 o'r Bil). Mae'r categori hwn o gyfreithiau'r UE a gaiff eu cadw'n cynnwys deddfwriaeth a wneir gan yr UE ac sy'n effeithio'n uniongyrchol ar Aelod-wladwriaethau, sy'n golygu nad oes raid i Aelod-wladwriaeth wneud dim i weithredu'r gyfraith oherwydd mae'n dod yn gymwys yn awtomatig cyn gynted ag y daw i rym. Er enghraifft, gwnaed Rheoliad UE 1169/2011 gan Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd (ar sail cynnig gan y Comisiwn Ewropeaidd), ac mae'n pennu gofynion yn ymwneud â phecynnu a labelu bwyd. Mae enghreifftiau eraill o ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE yn cynnwys Rheoliadau'r UE mewn meysydd fel pysgota, amaethyddiaeth, yr amgylchedd a meddyginiaethau.
- Hawliau a rhwymedigaethau eraill yr UE (cymal 4). Mae'r categori hwn o gyfreithiau'r UE a gaiff eu cadw'n cynnwys unrhyw hawliau a rhwymedigaethau eraill yr UE, nad ydynt wedi'u cynnwys yng nghymal 3 neu 4. Er enghraifft, mae erthygl 18 o'r

[1] Er gwybodaeth, mae enghreifftiau o ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE a wnaed gan Weinidogion Cymru i'w gweld yn yr Atodiad.

Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd yn gwahardd gwahaniaethu ar sail cenedligrwydd, a bydd yr hawl hwnnw’n rhan o’r cyfreithiau UE a gaiff eu cadw (er na fydd union destun erthygl 18 yn cael ei gynnwys yn rhan o’r cyfreithiau UE a gaiff eu cadw, caiff sylwedd yr hawl ei gynnwys).

Tra bod Gweinidogion y DU yn cael pwerau eang iawn mewn perthynas â’r tri chategori o gyfreithiau’r UE a gaiff eu cadw, mae pwerau Gweinidogion Cymru yn llawer mwy cyfyngedig. Yn benodol, nid yw Gweinidogion Cymru yn cael unrhyw bwerau i addasu cyfreithiau’r UE a gaiff eu cadw ac sydd wedi’u cynnwys yng nghymal 3 neu 4 o'r Bil, hyd yn oed os yw’r gyfraith dan sylw’n gymwys i Gymru ac yn ymwneud â meysydd datganoledig fel pysgota, amaethyddiaeth a'r amgylchedd. Hefyd, er i Weinidogion Cymru gael pwerau i addasu cyfreithiau’r UE a gaiff eu cadw ac sydd wedi’u cynnwys yng nghymal 2, mae’r pwerau hynny gryn dipyn yn llai na'r pwerau a roddwyd i Weinidogion y DU; mae Atodlen 2 i'r Bil yn nodi'r cyfyngiadau sy'n gymwys i'r pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru.

**Yn ogystal â’n pryderon am faint y pwerau’n gyffredinol, rydym hefyd yn pryderu am y goblygiadau sydd ynghlwm wrth roi pwerau i Weinidogion y DU, gan gynnwys pwerau i addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE mewn meysydd datganoledig yng Nghymru, sydd yn llawer ehangach na'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru.**

**5. Y Siarter Hawliau Sylfaenol**

Mae Cymal 5 (5) o'r Bil yn dweud na fydd y Siarter Hawliau Sylfaenol yn rhan o gyfraith ddomestig y DU ar y diwrnod y bydd yn gadael yr UE nac wedyn, ond mae cymal 5 (6) yn dweud nad yw hyn yn effeithio ar gadw hawliau neu egwyddorion sylfaenol. Felly, er na fydd y Siarter ei hun yn rhan o gyfraith ddomestig y DU ar ôl gadael, fe fydd yr hawliau a'r egwyddorion sylfaenol yn cael eu cynnwys. Mae'r Nodiadau Esboniadol sy’n cyd-fynd â’r Bil yn dweud: "By converting the EU *acquis* into UK law, those underlying rights and principles will also be converted into UK law, as provided for in this Bill”.

**Rydym yn pryderu na fydd yr hawliau a’r egwyddorion sylfaenol hyn yn cael eu diogelu’n ddigonol o dan y Bil. Yn benodol, a oes unrhyw hawliau ac egwyddorion sylfaenol na fyddant yn cael eu troi'n ddeddfwriaeth ddomestig?**

Gobeithiaf ichi gael ein sylwadau cychwynnol o gymorth wrth inni ymgynghori dros yr haf, ac y byddant o ddefnydd i chi wrth i chi lywio’r Bil drwy Senedd y DU.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Prif Weinidog Cymru, Cadeirydd Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad Cenedlaethol,

Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cadeirydd Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin, Cadeirydd Pwyllgor Cyfansoddiadol Tŷ'r Arglwyddi, Cadeirydd Pwyllgor Dethol yr UE yn Nhŷ'r Arglwyddi, a Chadeirydd Pwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad Senedd yr Alban.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

**Huw Irranca-Davies**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Atodiad - enghreifftiau o ddeddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE a wnaed gan Weinidogion Cymru**

Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2017/724

Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017/691

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017/567

Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017/565

Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru) 2017/453

Rheoliadau Adeiladu &c. (Diwygio) (Cymru) 2016/611

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016/386

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc a Gorfodi) (Cymru) 2016/387

Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2016/217

Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) (Diwygio) 2015/2020

Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2015/1867

Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Cymru) 2015/1597

Rheoliadau Gwlad Tarddiad Cigoedd Penodol (Cymru) 2015/1519

Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Diwygio) Cymru 2015/1394

Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015/1252

Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014/3223

Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014/3222

Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2014/2894

Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014/517

Rheoliadau Clefyd Affricanaidd y Ceffylau (Cymru) 2013/1662

Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2013/1241

Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Cymru) 2014/1493

Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011/991

Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010/1671

Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010/1433

Rheoliadau Anifeiliaid (Rheolwyr Milfeddygol Rhanbarthol) (Cymru) 2010/619

Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) (Diwygio) 2010/66

Rheoliadau Cronfa Pysgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2009/360

Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008/1090

Rheoliadau Cyfyngiadau Allforio a Symud (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) 2007/3296

Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006/2629

UK Government
Llywodraeth y DU

**Rt Hon Alun Cairns MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Gwydyr House | Tŷ Gwydyr
London | Llundain
SW1A 2NP

1 Caspian Point | 1 Pwynt Caspian
Cardiff | Caerdydd
CF10 4DQ

www.gov.uk/wales
www.gov.uk/cymru

David Rees AM
Chair, External Affairs Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

59SOS 17

29th August 2017

Dear Mr Rees,

**Report by the National Assembly for Wales's External Affairs Committee on its inquiry into the implications of Brexit for Welsh ports**

Thank you for providing me with a copy of your Committee's report on the impact on Welsh ports of the UK's exit from the European Union.

The importance of ports such as Milford Haven and Holyhead to the economy of Wales, and the UK more widely, should never be underestimated. I recognise this, and earlier this year I visited the Port of Holyhead to discuss the challenges and opportunities for the port arising from the vote to leave the EU, and Guto Bebb MP, Parliamentary Under Secretary of State for Wales, also recently met with representatives of Irish Ferries to have similar discussions.

You will be aware that the UK Government recently published the first in a series of papers on the Government's approach to the future partnership we want with the EU, covering the Government's goals for the UK's future customs arrangements. Given the role of our ports this will of course be of great importance to Wales.

As the UK leaves the EU and its customs union, we will be guided by what delivers the greatest economic advantage to the UK. We want our new customs arrangements to meet three objectives:

- To keep trade with the EU as frictionless as possible;
- To avoid a 'hard border' between Ireland and Northern Ireland;
- To establish an independent international trade policy.

And of course we must avoid any arrangement that creates customs barriers within the UK.

The Government is actively engaging with the devolved administrations, including the Welsh Government, and will continue to do so as we seek a deal that secures the specific interests of England, Scotland and Northern Ireland, as well as those of all parts of Wales.

**Rt Hon Alun Cairns MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Eitem 3.5

HOUSE OF LORDS
European Union Committee

House of Lords
London
SW1A 0PW

Tel: 020 7219 5864
Fax: 020 7219 6715
euclords@parliament.uk
www.parliament.uk/lords

David Rees AM
Chair
External Affairs and Additional Legislation Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay, CF99 1NA

19 July 2017

Dear David

**Brexit: devolution - new House of Lords EU Committee report**

On behalf of the Committee Chairman, Lord Boswell of Aynho, who is currently unwell, I am pleased to enclose a copy of the new report by the House of Lords EU Committee, published today, on *Brexit: devolution.*

The report concludes that the UK Government needs to work with the devolved governments to achieve an outcome that protects the interests of all parts of the UK. No durable solution will be possible without the consent of all the nations of the UK. Our report sets out in detail the particular circumstances in Scotland, Wales and Northern Ireland, the impact upon devolved competences, legislating for Brexit and legislative consent, and engagement with the devolved institutions.

We have been particularly grateful in the course of our work to meet colleagues from our equivalent Committees in the devolved legislatures, both before and after the referendum, and I am pleased to note that our officials are in regular contacts. In order to build on these mechanisms for collaboration, we propose in our report "more regular joint meetings with members of cognate Committees with responsibility for Brexit-related issues in the Scottish Parliament, National Assembly for Wales and Northern Ireland Assembly, and in the House of Commons, for the duration of the Brexit negotiations. These joint meetings could provide an opportunity to hear informally from UK and devolved Government Ministers, and to discuss issues of mutual interest and concern."

In order to facilitate this, and having consulted with the Senior Deputy Speaker of the House of Lords, Lord McFall of Alcluith, who chairs the House's Informal Brexit Liaison Group, we would like to propose quarterly informal meetings of representatives of Committees involved in scrutinising Brexit in the devolved legislatures, the House of Commons and the House of Lords for the duration of the Brexit negotiations. These meetings would provide a means to share information on issues of common interest, hear from experts and stakeholders on the Implications of Brexit, and, most important, provide an opportunity to hear from the UK and devolved Governments on the progress of negotiations and their discussions through the JMC (EN) and other fora.

We would like to keep the arrangements for such meetings as flexible as possible. However, we envisage inviting attendees from Committees in our legislatures scrutinising EU matters,


constitutional issues and delegated/ secondary legislation, with four or five participants in total from each legislature. We would also envisage a rotating venue for these meetings, although we are happy to host the meeting in the House of Lords whenever this is helpful.

We would like to begin our dialogue at an early point in the autumn, in order to maximise our ability to influence and scrutinise the Brexit negotiations. Accordingly, we would like to invite you to the first meeting in the House of Lords, in the week of **Monday 9 October.** I have invited our officials to liaise to finalise the date of the meeting.

I do hope you are willing to participate in this dialogue, which I am sure will be mutually beneficial in our respective efforts to scrutinise the Brexit process and hold our Governments to account. If you have any questions or comments about the proposal, please do not hesitate to contact me or my officials.

I have written in similar terms to the Committees with responsibility for EU Affairs, constitutional issues, and delegated/ secondary legislation in each of the devolved legislatures, and to relevant Committees in the House of Commons.

Yours Sincerely



Lord Jay of Ewelme
On behalf of Lord Boswell of Aynho

**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

7 Medi 2017

Annwyl David,

Ar ôl cyhoeddi ein Papur Gwyn, 'Diogelu Dyfodol Cymru' ym mis Ionawr, fe ddywedom ein bod yn bwriadu cyhoeddi cyfres o ddogfennau polisi pellach er mwyn ymestyn y drafodaeth yma yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig (DU). Cyhoeddwyd y gyntaf o'r dogfennau polisi hyn, 'Brexit a Datganoli', ym mis Mehefin.

Heddiw mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hail ddogfen bolisi yn y gyfres, sef 'Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl', sydd wedi'i hamgáu. Byddwch wedi gweld y Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd y bore yma, ac rwy'n bwriadu gwneud Datganiad Llafar i'r Cynulliad yn ystod Cyfarfod Llawn 19 Medi.

Mae'r ddogfen bolisi hon, sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth, yn adeiladu ar y dull polisi lefel uchel a amlinellwyd yn y lle cyntaf yn ein Papur Gwyn, 'Diogelu Dyfodol Cymru'. Mae'r ddogfen yn cynnig ffordd ymlaen lle gallai Cymru, a'r DU, barhau i fanteisio ar gyfraniad enfawr pobl o wledydd eraill i'n heconomi a'n gwasanaethau cyhoeddus, gan ymateb ar yr un pryd i bryderon ynghylch rhai agweddau ar fewnfudo. Wrth wneud hynny, mae'n amlinellu polisi ymarferol ac egwyddorol ar gyfer mewnfudo yn y dyfodol, sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, a lle mae sylw priodol yn cael ei roi i fater camfanteisio ar weithwyr. Cynhaliwyd trafodaethau helaeth â rhanddeiliaid ynglŷn â phwysigrwydd mewnfudo i'r economi a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a chafwyd cyngor a dadansoddiad gan arbenigwyr ar faterion mudo a sut i ymdrin â chamfanteisio ar weithwyr wrth baratoi'r ddogfen bolisi.

Nod ein dogfen bolisi yw cyfrannu mewn modd adeiladol at y drafodaeth agored sydd ei hangen ledled y DU ar bolisi mewnfudo'r DU yn y dyfodol. Yn fy marn i, mae'r dull hwn yn un a allai ennyn cefnogaeth yn eang gan bobl o bob cwr o Gymru a'r DU gyfan, a byddai'n fan cychwyn da ar gyfer negodiadau rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd (UE) ar fudo rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Edrychaf ymlaen at drafod ein cynigion gyda chi a'ch Pwyllgor yn y dyfodol agos.



**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales



Cadeiryddion y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

18 Awst 2017

Annwyl Gadeirydd

**Deddf Cymru 2017: Prif Ddiwrnod Penodedig**

Diolch i chi am drafod ymgynghoriad Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar yr uchod yn eich Pwyllgor.

Gweler yn atodedig fy ymateb i Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Yn sgil y sylwadau a ddaeth gan y Pwyllgor Cyllid a thrafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, rwyf wedi awgrymu newid y dyddiad y bydd y model cadw pwerau yn dod i rym o 6 Ebrill 2018 i 1 Ebrill 2018, i gyd-fynd â'r dyddiad y bydd y trethi datganoledig newydd yn dod yn weithredol. Bydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn nodi'r Prif Ddiwrnod Penodedig mewn Rheoliadau.

Byddaf yn eich rhoi gwybod i chi am unrhyw ohebiaeth bellach gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y mater hwn.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd

Amg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
1 Caspian Point
Ffordd Caspian
Bae Caerdydd
CF10 4DQ

Eich cyf: 250SUB 17
Ein cyf: PO210/EJ/HG

18 Awst 2017

Annwyl Alun

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Gorffennaf yn cynnig 6 Ebrill 2018 fel y Prif Ddiwrnod Penodedig lle bydd y model cadw pwerau i Gymru yn dod i rym.

Rwyf wedi ystyried y cynigion rydych yn eu cyflwyno ac wedi ymgynghori â phwyllgorau'r Cynulliad. Ar y sail honno, rwy'n cytuno â chi y dylai'r trefniadau newydd ddod i rym ym mis Ebrill 2018 ar yr un diwrnod y bydd y trethi datganoledig newydd yn dod i rym - y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Rwyf ar ddeall y bydd hyn yn digwydd ar 1 Ebrill 2018. Felly, byddwn i'n awgrymu y dylai'r Prif Ddiwrnod Penodedig fod ar 1 Ebrill 2018. Byddai hyn yn golygu bod y model cadw pwerau yn dod i rym ar Sul y Pasg.

Gwnaethoch hefyd nodi yn eich llythyr bod eich swyddogion yn ystyried a fyddai'r sesiwn seneddol dwy flynedd yn arwain at unrhyw oblygiadau i'r Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol a allai fod angen. Edrychaf ymlaen at gael y wybodaeth hon maes o law.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd

cc Cadeiryddion Pwyllgorau'r Cynulliad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
0300 200 7403

UK Government
Llywodraeth y DU

**Rt Hon Alun Cairns MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Gwydyr House | Tŷ Gwydyr
London | Llundain
SW1A 2NP

1 Caspian Point | 1 Pwynt Caspian
Cardiff | Caerdydd
CF10 4DQ

www.gov.uk/wales
www.gov.uk/cymru

Y Swyddfa Breifat
18 SEP 2017
PO 262
Private Office

Elin Jones AM
Presiding Officer
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

Ref: 414SUB 17

17th September 2017

Annwyl Elin,

**Wales Act 2017: Principal Appointed Day (PAD)**

Further to you letter of 18 August, I am writing to confirm that I am content for the Principal Appointed Day (PAD) to be the 1 April 2018. I have instructed my officials to proceed on that basis. They will of course work closely with your officials to ensure a smooth transition to the new devolution settlement.

I am copying this letter to the First Minister and have written to him in similar terms.

Yn gywir,

**Rt Hon Alun Cairns MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

UK Government
Llywodraeth y DU

**Rt Hon Alun Cairns MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Gwydyr House | Tŷ Gwydyr
London | Llundain
SW1A 2NP

1 Caspian Point | 1 Pwynt Caspian
Cardiff | Caerdydd
CF10 4DQ

www.gov.uk/wales
www.gov.uk/cymru

The Rt Hon Carwyn Jones AM
First Minister of Wales
Welsh Government
Tŷ Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA

Ref: 414SUB 17

17 September 2017

Dear Carwyn,

**Wales Act 2017: Principal Appointed Day (PAD)**

Further to your letter of 25 August, I am writing to confirm that I am content for the Principal Appointed Day (PAD) to be the 1 April 2018. I have instructed my officials to proceed on that basis. They will of course work closely with yours to ensure a smooth transition to the new devolution settlement.

I am copying this letter to the Presiding Officer and have written to her in similar terms.

Cofion,

AC

**Rt Hon Alun Cairns MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Eitem 3.9

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd
Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

19 Medi 2017

Annwyl David

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi ar y cyd heddiw gwelliannau arfaethedig i'r Bil Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

Yr wyf i a Phrif Weinidog yr Alban wedi ysgrifennu at y Prif Weinidog, yn amlinellu ein bwriad wrth gyhoeddi'r gwelliannau hyn. Bydd y gwelliannau yn ein galluogi i ystyried argymell i'r Cynulliad rhoi cydsyniad deddfwriaethol i'r Bil, a byddem yn croesawu eich cefnogaeth wrth i ni bwyso am fynd i'r afael a'r diffygion yn y Bil.

Yn gywir

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**BIL YR UNDEB EWROPEAIDD (YMADAEL)**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13 Gorffennaf 2017. Gellir cael copi o'r Bil yn: Bill documents — European Union (Withdrawal) Bill 2017-19 — UK Parliament

3. Mae'r Memorandwm yn ymwneud â'r Bil fel y'i cyflwynwyd ar 13 Gorffennaf 2017.

**Amcan(ion) Polisi**

4. Yr amcan polisi sydd wedi'i ddatgan gan Lywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw sicrhau bod y DU yn ymadael â'r UE gyda chymaint o sicrwydd, dilyniant a rheolaeth â phosibl. Mae'n anelu at roi terfyn ar oruchafiaeth cyfraith yr Undeb Ewropeaidd ("yr UE") yng nghyfraith y DU ac at drosi cyfraith yr UE fel y saif adeg ymadael yn gyfraith ddomestig. Mae'r Bil hefyd yn creu pwerau dros dro i'r Gweinidogion wneud is-ddeddfwriaeth i alluogi i gywiriadau gael eu gwneud i'r cyfreithiau na fyddent bellach yn gweithredu'n briodol fel arall ar ôl i'r DU ymadael, er mwyn i'r system gyfreithiol ddomestig barhau i weithredu'n gywir y tu allan i'r UE. Mae'r Bil hefyd yn galluogi cyfraith ddomestig i adlewyrchu cynnwys cytundeb ymadael o dan Erthygl 50 o Gytuniad yr Undeb Ewropeaidd ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

**Crynodeb o'r Bil**

5. Noddir y Bil gan yr Adran dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

6. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi barn Llywodraeth y DU fod y Bil yn cyflawni pedair prif swyddogaeth. Mae:

   - yn diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972
   - yn trosi cyfraith yr UE fel y saif adeg ymadael yn gyfraith ddomestig cyn i'r DU ymadael â'r UE;
   - yn creu pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys pwerau dros dro i alluogi i gywiriadau gael eu gwneud i'r cyfreithiau na fyddent bellach yn gweithredu'n briodol fel arall ar ôl i'r DU ymadael â'r UE ac i roi cytundeb ymadael ar waith; ac

- yn cadw cwmpas presennol pwerau datganoledig ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn meysydd a lywodraethir gan gyfraith yr UE ar hyn o bryd.

7. Y cymalau sydd o berthnasedd penodol i faterion datganoledig yw:

- Cymalau 2 – 6 (sy'n diogelu ac yn cadw cyfraith yr UE mewn cyfraith ddomestig, gan gynnwys mewn meysydd sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol)

- Cymalau 7 – 9 (sy'n darparu pwerau i Weinidogion y DU gywiro cyfraith gadwedig yr UE a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol a'r cytundeb ymadael â'r UE, gan gynnwys mewn meysydd datganoledig)

- Cymal 10 ac Atodlen 2 (sy'n darparu pwerau i Weinidogion Cymru gywiro cyfraith gadwedig yr UE a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol a'r cytundeb ymadael â'r UE);

- Cymal 11 ac Atodlen 3 (sy'n cyfyngu ar gymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Cymru); ac

- Atodlen 7 (sy'n nodi'r gweithdrefnau deddfwriaethol i'w dilyn ar gyfer amryw o ddarpariaethau is-ddeddfwriaeth yn y Bil, gan gynnwys pwerau Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU sy'n gweithredu mewn meysydd datganoledig).

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

8. Nodir y rhestr lawn o gymalau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Cynulliad”) neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw yn y tabl yn Atodiad A. Mae'r Llywodraeth yn nodi bod gan Lywodraeth yr Alban farn debyg am y darpariaethau sy'n gorfod cael cydsyniad deddfwriaethol oddi wrth Senedd y DU.

<u>Darpariaethau sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad</u>

9. Sef:

- Cymal 1 (diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972). Mae'r ddarpariaeth yn addasu cymhwysedd y Cynulliad trwy ddileu'r gofyniad i'r Cynulliad ddeddfu yn gydnaws â chyfraith yr UE.

- Mae Cymal 11 yn diwygio adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i ddiffinio cymhwysedd y Cynulliad trwy gyfeirio at gyfraith yr UE a gedwir mewn cyfraith ddomestig gan ddarpariaethau'r Bil. Mae'r ddarpariaeth yn addasu cymhwysedd y Cynulliad am y byddai'n atal y Cynulliad rhag addasu cyfraith gadwedig yr UE mewn ffordd na fyddai wedi bod o fewn cymhwysedd yn union cyn y diwrnod ymadael.

- Mae cymal 17 ac Atodlen 8 a 9 yn rhoi pwerau eang i Weinidog y Goron wneud darpariaeth ganlyniadol. Gallai'r pwerau hynny gael eu harfer yn y fath ffordd ag i addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

<u>Darpariaethau sy'n deddfu at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad</u>

*Cymalau 2 – 6*

10. Mae'r darpariaethau hyn (yn ddarostyngedig i rai eithriadau) yn trosi'r corff o gyfraith bresennol yr UE yn gyfraith ddomestig ac yn diogelu'r cyfreithiau a wneir yn y DU i roi rhwymedigaethau'r UE ar waith. Mae'r darpariaethau allweddol wedi'u crynhoi isod:

    - Mae Cymal 2 ac Atodlen 1 yn darparu bod deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE yn parhau i fod yn effeithiol mewn cyfraith ddomestig ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Er enghraifft, is-ddeddfwriaeth a wneir o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

    - Mae Cymal 3 yn gwneud darpariaeth ar wahân ar gyfer deddfwriaeth uniongyrchol yr UE (h.y. Rheoliadau'r UE).

    - Mae Cymal 4 yn sicrhau bod unrhyw rai o hawliau a rhwymedigaethau uniongyrchol yr UE sy'n weddill yn parhau i gael eu cydnabod ac i fod ar gael mewn cyfraith ddomestig ar ôl ymadael, megis hawliau Cytuniad sy'n effeithiol yn uniongyrchol.

    - Mae Cymal 5 ac Atodlen 1 yn nodi eithriadau i arbed ac ymgorffori cyfraith yr UE. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi terfyn ar yr egwyddor o oruchafiaeth cyfraith yr UE a darpariaeth sy'n cadarnhau na fydd y Siarter Hawliau Sylfaenol yn effeithiol bellach mewn cyfraith ddomestig o'r dyddiad ymadael â'r UE.

    - Mae Cymal 6 yn esbonio sut y bwriedir dehongli cyfraith gadwedig yr UE o'r dyddiad ymadael â'r UE. Mae'n cadarnhau y daw awdurdodaeth Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd ("CJEU") i ben ac mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer trin penderfyniadau CJEU gan y llysoedd domestig wrth ddehongli cyfraith gadwedig yr UE ar ôl ymadael â'r UE.

11. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn. Mae gan y Cynulliad gymhwysedd i ddeddfu rheolau sy'n deillio o'r UE yn gyfraith ddomestig adeg ymadael â'r UE ac i ddiffinio sut y bwriedir dehongli'r gyfraith honno, i'r graddau y mae'r rheolau hynny'n ymwneud ag un neu ragor o bynciau yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Er enghraifft, y pwnc "environmental protection" o dan baragraff 6 o'r Atodlen honno o dan amgylchiadau lle mae'r rheolau sy'n deillio o'r UE sydd i'w deddfu'n darparu ar gyfer diogelu'r amgylchedd.

*Cymalau 7- 10 ac 16*

12. Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi pwerau i Weinidogion y Goron a Gweinidogion Cymru ddiwygio cyfraith gadwedig yr UE, ac yn cynnwys fel a ganlyn:

    - Mae Cymal 7 yn caniatáu i Weinidog y Goron wneud darpariaeth trwy gyfrwng rheoliadau i atal, unioni neu liniaru unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE i weithredu'n effeithiol neu unrhyw ddiffyg arall yng nghyfraith gadwedig yr UE sy'n deillio o ymadael â'r UE.

    - Mae Cymal 8 yn rhoi pŵer i Weinidog y Goron wneud rheoliadau i hwyluso cydymffurfio parhaus â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU.

    - Mae Cymal 9 yn rhoi pŵer i Weinidog y Goron weithredu cytundeb ymadael rhwng y DU a'r UE.

    - Mae Cymal 10 ac Atodlen 2 yn rhoi pwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru, ond maent wedi'u cyfyngu mewn nifer o ffyrdd. Er enghraifft, nid ydynt yn ymestyn ond i gywiro cyfraith yr UE sydd wedi cael effaith trwy ddeddfwriaeth ddomestig ac ni ellir eu defnyddio i addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE megis Rheoliadau'r UE.

    - Mae Cymal 16 ac Atodlen 7 yn gwneud darpariaeth ar gyfer craffu ar reoliadau a wneir o dan y Bil.

13. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer pob un o'r darpariaethau hyn. Er bod rhai pwerau'n cael eu rhoi i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n gallu diwygio deddfwriaeth o fewn cymhwysedd y Cynulliad (Cymal 10 ac Atodlen 2), gall Gweinidog y Goron ddal i arfer y pwerau yng nghymalau 7-9 i addasu deddfwriaeth sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad.

14. Mae o fewn cymhwysedd y Cynulliad i roi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i fynd i'r afael â diffygion sy'n deillio o ymadael â’r UE o dan amgylchiadau lle mae'r gyfraith sy'n cael eu haddasu'n ymwneud ag un neu ragor o bynciau yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

*Cymal 12 ac Atodlen 4 – Darpariaeth ariannol*

15. Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi pwerau i Weinidog y Goron ac awdurdodau datganoledig wneud is-ddeddfwriaeth i alluogi awdurdodau cyhoeddus i godi ffioedd neu daliadau eraill.

16. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y ddarpariaeth hon. Mae o fewn cymhwysedd y Cynulliad i wneud darpariaeth ar gyfer codi ffioedd gan awdurdodau cyhoeddus, i'r graddau y mae'r awdurdodau hyn/eu swyddogaethau'n ymwneud ag un neu ragor o bynciau yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

*Cymal 13 ac Atodlen 5 – Cyhoeddi a rheolau tystiolaeth.*

17. Mae'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyhoeddi deddfwriaeth uniongyrchol gadwedig yr UE gan Argraffydd y Frenhines yn yr Archifau Gwladol. Yn Atodlen 5 ceir darpariaeth bellach ynghylch y rheolau tystiolaeth sydd i fod yn gymwys i offerynnau'r UE.

18. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y ddarpariaeth hon. Mae o fewn cymhwysedd y Cynulliad i wneud darpariaeth ar gyfer cyhoeddi cyfraith gadwedig yr UE a sut y bwriedir dehongli'r gyfraith honno i'r graddau y mae'r gyfraith honno'n ymwneud ag un neu ragor o bynciau yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

<u>Craffu ar bwerau is-ddeddfwriaeth Gweinidogion Cymru</u>

19. Trwy roi effaith i Atodlen 2, mae cymal 10 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sy'n cyfateb i'r pwerau a roddir i Weinidogion y Goron yng nghymalau 7-9 fel y nodir uchod. Nodir y gweithdrefnau ar gyfer craffu seneddol ar y pwerau cywiro hyn yn Rhannau 1 a 2 o Atodlen 7.

20. Ar gyfer pob pŵer, mae'r Atodlen yn rhestru cyfres o ddarpariaethau, y bydd eu cynnwys mewn offeryn statudol (“OS”) yn peri bod yr OS yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn Senedd y DU. Mae'r Atodlen wedyn yn darparu bod OS Gweinidogion Cymru sy'n cynnwys unrhyw rai o'r darpariaethau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn y Cynulliad. Pan fydd OS sy'n cynnwys y darpariaethau hyn yn cael ei wneud gan Weinidog y Goron a Gweinidogion Cymru ar y cyd, mae'r gweithdrefnau penderfyniad cadarnhaol yn gymwys mewn perthynas â Senedd y DU a'r Cynulliad. Mae unrhyw OS sy'n cynnwys unrhyw rai o'r darpariaethau a restrir yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

21. Mae’r darpariaethau a fydd yn sbarduno'r gofyniad ar gyfer penderfyniad cadarnhaol ar gyfer pob pŵer wedi’u rhestru yn Atodiad B.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru ym Mil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**

22. Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno bod angen deddfwriaeth i gynnig eglurder a sicrwydd i ddinasyddion a busnesau wrth inni ymadael â'r UE. Rydym yn derbyn o ran egwyddor yr angen am ddarpariaethau sy'n trosi cyfraith yr UE yn gyfraith ddomestig, a darpariaethau sy'n creu pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys pwerau dros dro i alluogi i gywiriadau gael eu gwneud i'r cyfreithiau na fyddent bellach yn gweithredu'n briodol pan fydd y DU wedi ymadael â'r UE. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno hefyd mai Senedd y DU, yn ddelfrydol, a ddylai wneud y ddeddfwriaeth honno, a hynny ar ran y DU gyfan, gan mai

hyn fyddai'n cynnig y mesur gorau o gysondeb a sicrwydd i ddinasyddion a busnesau.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i cyflwynwyd.**

23. Ni fydd modd i Lywodraeth Cymru argymell i'r Cynulliad ei fod yn rhoi cydsyniad i'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd.

24. Nodir safbwynt Llywodraeth Cymru yn y Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddais pan gafodd y Bil ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13 Gorffennaf, ac yn y datganiad ar y cyd a wneuthum â Phrif Weinidog yr Alban yr un diwrnod.

25. Mae prif wrthwynebiadau Llywodraeth Cymru'n ymwneud â chymalau 7-9 (sy'n rhoi i Weinidogion y Goron bwerau annerbyniol o eang i wneud rheoliadau, gan gynnwys y gallu i ddiwygio cyfraith ddatganoledig a'r setliad datganoli heb gydsyniad), cymal 10 (sy'n rhoi effaith i Atodlen 2 ac sy'n cyfyngu'n afresymol ar bwerau cywiro Gweinidogion Cymru i gyfraith ddomestig yr UE) a chymal 11 sy'n cyflwyno cyfyngiad newydd ar gymhwysedd deddfwriaethol.

*Pwerau i Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru ddiwygio cyfraith ddatganoledig*

26. Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion y Goron yng nghymal 7 (i ymdrin â diffygion sy'n deillio o ymadael), yng nghymal 8 (i alluogi cydymffurfio parhaus â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU, a chymal 9 (i roi'r cytundeb ymadael ar waith). Byddai'r pwerau hyn yn caniatáu i Weinidog y Goron ddiwygio'n unochrog ddeddfwriaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, gan gynnwys deddfwriaeth lle bo Gweinidogion Cymru'n arfer swyddogaethau. Senedd y DU yn hytrach na'r Cynulliad fyddai'n cyflawni'r rhwymedigaeth graffu wedyn. Gallai'r pwerau hyn gael eu defnyddio hefyd i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006, heb unrhyw ofyniad i gael sêl bendith y Cynulliad.

27. Trwy roi effaith i Atodlen 2, mae cymal 10 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sy'n cyfateb i'r pwerau a roddir i Weinidogion y Goron yng nghymalau 7-9.  Ond mae'r pwerau cyfatebol ar gyfer Gweinidogion gweinyddiaethau datganoledig yn ymestyn yn unig i orchmynion cywiro mewn perthynas â deddfwriaeth sydd wedi'i gwneud gan sefydliadau domestig. Gweinidog y Goron yn unig sy'n cael diwygio deddfwriaeth uniongyrchol yr UE (megis Rheoliadau'r UE) a byddai Senedd y DU yn gorfod craffu arni hyd yn oed pe bai'n ymwneud â phwnc sydd wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad.

*Cyfyngiadau newydd ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad*

28. Mae Cymal 11 yn cyflwyno darpariaeth newydd a fydd yn golygu y bydd y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad i addasu cyfraith gadwedig yr UE mewn

ffordd na fyddai wedi bod yn gydnaws â chyfraith yr UE yn union cyn ymadael. Mae hyn yn disodli'r ddarpariaeth newydd yn adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad ddeddfu'n gydnaws â chyfraith yr UE.

29. Oni bai fod darpariaeth ddeddfwriaethol yn cael ei gwneud yn Senedd y DU, mae'n dir cyffredin y byddai cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer materion datganoledig sy'n destun cyfyngiadau'r UE ar hyn o bryd yn aros gyda'r deddfwrfeydd datganoledig ar ôl ymadael, gyda'r deddfwrfeydd hynny'n gallu arfer eu cymhwysedd heb y cyfyngiadau sy'n cael eu gorfodi ar hyn o bryd o ganlyniad i aelodaeth y DU o'r UE.

30. Yn natganiad polisi Llywodraeth Cymru *Brexit a Datganoli*, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin, fe'i gwnaed yn glir ein bod yn barod i negodi fframweithiau'r DU mewn rhai meysydd a oedd gynt yn cael eu cwmpasu gan gyfraith yr UE. Gallai hyn fod, er enghraifft, i helpu marchnad y DU i weithredu'n effeithiol ac atal rhwystrau rhag dod i'r amlwg a allai gyfyngu'n afresymol ar fusnesau, neu i hwyluso rheoli adnoddau amgylcheddol cyffredin.

31. Rhaid i'r broses o gytuno lle mae angen fframweithiau, a beth ddylai fod ynddynt, fod yn broses sy'n seiliedig ar gytundeb, ac nid gorfodaeth. Ond mae'r Bil yn cynnig, yn hytrach, set newydd o gyfyngiadau cyfreithiol ar gymhwysedd y sefydliadau datganoledig mewn perthynas â'r materion hyn, ac mae hyn yn gyfan gwbl annerbyniol inni o ran egwyddor. Ymhellach, wrth gyflwyno cyfyngiad newydd ar gymhwysedd a ddiffinnir mewn perthynas â 'chyfraith gadwedig yr UE', byddai'r Bil yn ychwanegu cymhlethdod ac ansicrwydd at y setliad datganoli ar ôl ymadael â'r UE.

32. Mae Llywodraeth y DU wedi awgrymu bod y cyfyngiad a orfodir gan gymal 11 yn drosiannol ei natur, ac mai ei fwriad yw caniatáu amser a lle ar gyfer trafod ac ymgynghori ag awdurdodau datganoledig ynghylch lle mae angen fframweithiau. Er hynny, yn groes i'r gwahanol ddarpariaethau machlud a gynhwysir yn y pwerau Gweinidogol, nid oes unrhyw derfynau amser ar weithrediad cymal 11.

33. Ym marn Llywodraeth Cymru, dylid dileu'r cymal o'r Bil. Rydym yn cynnig y dull gweithredu amgen sy'n parchu datganoli, fel y nodir uchod, ac rydym yn barod i gydweithio'n agos â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i gyflawni hyn, er budd y DU gyfan.

34. Mae gorfodi'r cyfyngiad newydd hwn ar gymhwysedd y Cynulliad yn golygu canoli diangen ac annerbyniol ar bwerau ar lefel y DU, ac ni all Llywodraeth Cymru gytuno i hyn.

35. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Llywodraeth yr Alban i gynnig gwelliannau i'r Bil a fydd yn mynd i'r afael â'n pryderon. Caiff y rhain eu cyhoeddi er mwyn llywio'r ddadl ar y Bil yn y Cynulliad, yn San Steffan ac yn ehangach. Rwyf yn gobeithio gosod memorandwm atodol maes o law, i adlewyrchu'r gwelliannau y bydd Senedd y DU'n cytuno â hwy, sy'n

hanfodol os yw Llywodraeth Cymru am allu bod mewn sefyllfa i argymell bod cydsyniad deddfwriaethol yn cael ei roi.

**Y goblygiadau ariannol**

36. Er nad oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru na'r Cynulliad yn deillio o'r pwerau o dan y Bil, bydd goblygiadau ariannol sylweddol i Gymru yn sgil ymadael â'r UE, a hynny yn ei effaith economaidd gyffredinol ac mewn meysydd ariannu sy'n deillio o'r UE, fel y nodir yn *Diogelu Dyfodol Cymru*.

**Casgliad**

37. Mae'r memorandwm hwn yn nodi barn Llywodraeth Cymru am y gofyniad ar gyfer cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad mewn perthynas â Bil yr UE (Ymadael), ac yn cadarnhau na fyddwn mewn sefyllfa i argymell cydsynio oni bai bod y Bil yn cael ei ddiwygio i fynd i'r afael â'n pryderon.

**Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC**
**Prif Weinidog Cymru**
**Medi 2017**

**Atodiad A Cymalau sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad**

| Cymal/ Amserlen | Effaith |
|---|---|
| 1 | yn diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ar y diwrnod ymadael |
| 2 | yn darparu bod deddfwriaeth ddomestig bresennol sy'n gweithredu rhwymedigaethau cyfraith yr UE yn aros ar y llyfr statud domestig ar ôl i'r DU ymadael â'r UE |
| 3 | yn trosi 'deddfwriaeth uniongyrchol yr UE' yn ddeddfwriaeth ddomestig adeg ymadael â'r UE er mwyn i ddeddfwriaeth yr UE, lle bo'n briodol, barhau i gael effaith yn sgil ymadael |
| 4 | yn sicrhau bod unrhyw rai o hawliau a rhwymedigaethau'r UE sy'n weddill nad ydynt yn dod o fewn cymalau 2 a 3 yn parhau i gael eu cydnabod ac i fod ar gael mewn cyfraith ddomestig ar ôl ymadael |
| 5 | yn nodi rhai eithriadau i arbed ac ymgorffori cyfraith yr UE y darperir ar eu cyfer gan gymalau 2-4, gan gynnwys na fydd y Siarter Hawliau Sylfaenol yn rhan o gyfraith ddomestig ar y diwrnod ymadael neu ar ôl hynny. |
| 6 | yn nodi sut y caiff cyfraith gadwedig yr UE ei darllen a'i dehongli ar y diwrnod ymadael ac ar ôl hynny |
| 7 | yn rhoi'r pŵer i Weinidogion y Goron wneud rheoliadau sy'n diwygio diffygion yng nghyfraith gadwedig yr UE er mwyn iddi barhau i weithredu'n effeithiol ar ôl ymadael |
| 8 | yn rhoi'r pŵer i Weinidogion y Goron wneud darpariaeth mewn rheoliadau ar gyfer cydymffurfio parhaus â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU. |
| 9 | yn rhoi pwerau i Weinidogion y Goron wneud rheoliadau i roi cytundeb ymadael ar waith |
| 10 ac Atodlen 2 | yn darparu pwerau i'r gweinyddiaethau datganoledig (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) sy'n cyfateb i'r rhai a roddir i Weinidogion y Goron, fel y'u nodir yn Atodlen 2 |
| 11 ac Atodlen 3 | yn disodli'r gofyniad presennol na chaiff y Cynulliad ddeddfu ond mewn ffordd sy'n gydnaws â chyfraith yr UE, â darpariaeth newydd a fydd yn golygu y bydd y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad i addasu cyfraith gadwedig yr UE mewn ffordd na fyddai wedi bod yn gydnaws â chyfraith yr UE yn union cyn ymadael. Gall eithriadau i'r prawf hwn gael eu rhagnodi gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, sy'n gorfod cael eu cymeradwyo gan ddau Dŷ'r Senedd a chan y Cynulliad |
| 12 ac Atodlen 4 | yn rhoi effaith i Atodlen 4 sy'n darparu pwerau mewn cysylltiad â ffioedd a thaliadau, ac sy'n darparu y caiff awdurdodau datganoledig dynnu gwariant i baratoi ar gyfer gwneud offerynnau statudol o dan y Bil |
| 13 ac Atodlen 5 | yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyhoeddi deddfwriaeth gadwedig yr UE gan Argraffydd y Frenhines |

| | |
|---|---|
| 16 ac Atodlen 7 | yn rhoi effaith i Atodlen 7 ar sut y mae'r pwerau i wneud rheoliadau yn y Bil yn ymarferadwy |
| 17 | Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol |

**Atodiad B  Pwerau dirprwyedig:  darpariaethau sy'n gofyn am weithdrefnau penderfyniad cadarnhaol**

Mae Atodlen 7 yn rhestru cyfres o ddarpariaethau, y bydd eu cynnwys mewn offeryn statudol yn peri bod yr OS hwnnw yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn y ddeddfwrfa berthnasol/deddwrfeydd perthnasol.

Yn achos rheoliadau sy'n ymdrin â diffygion sy'n deillio o ymadael, y darpariaethau yw'r rhai:

(a) sy'n sefydlu awdurdod cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig,
(b) sy'n darparu bod unrhyw un o swyddogaethau endid neu awdurdod cyhoeddus yr UE mewn aelod-wladwriaeth yn ymarferadwy yn lle hynny gan awdurdod cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig a sefydlir gan reoliadau o dan adran 7, 8 neu 9 neu Atodlen 2,
(c) yn darparu bod unrhyw un o swyddogaethau endid neu awdurdod cyhoeddus mewn aelod-wladwriaeth ar gyfer gwneud offeryn o natur ddeddfwriaethol yn ymarferadwy yn lle hynny gan awdurdod cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig,
(d) yn gorfodi, neu'n ymwneud fel arall, â ffi mewn perthynas â swyddogaeth sy'n ymarferadwy gan awdurdod cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig,
(e) yn creu, neu'n ehangu cwmpas, trosedd, neu
(f) yn creu neu'n diwygio pŵer i ddeddfu.

Yn achos rheoliadau sy'n galluogi cydymffurfio parhaus â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU, y darpariaethau yw'r rhai:

(a) sy'n sefydlu awdurdod cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig,
(b) sy'n darparu bod unrhyw un o swyddogaethau endid neu awdurdod cyhoeddus yr UE mewn aelod-wladwriaeth yn ymarferadwy yn lle hynny gan awdurdod cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig a sefydlir gan reoliadau o dan adran 7, 8 neu 9 neu Atodlen 2,
(c) yn darparu bod unrhyw un o swyddogaethau endid neu awdurdod cyhoeddus mewn aelod-wladwriaeth ar gyfer gwneud offeryn o natur ddeddfwriaethol yn ymarferadwy yn lle hynny gan awdurdod cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig,
(d) yn gorfodi, neu'n ymwneud fel arall, â ffi neu dâl mewn perthynas â swyddogaeth sy'n ymarferadwy gan awdurdod cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig,
(e) yn creu, neu'n ehangu cwmpas, trosedd, neu
(f) yn creu neu'n diwygio pŵer i ddeddfu.

Yn achos rheoliadau i roi'r cytundeb ymadael ar waith, y darpariaethau yw'r rhai:

(a) sy'n sefydlu awdurdod cyhoeddus yn y  Deyrnas Unedig,
(b) sy'n darparu bod unrhyw un o swyddogaethau endid neu awdurdod cyhoeddus yr UE mewn aelod-wladwriaeth yn ymarferadwy yn lle hynny gan awdurdod cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig a sefydlir gan reoliadau o dan adran 7, 8 neu 9 neu Atodlen 2,

(c) yn darparu bod unrhyw un o swyddogaethau endid neu awdurdod cyhoeddus mewn aelod-wladwriaeth ar gyfer gwneud offeryn o natur ddeddfwriaethol yn ymarferadwy yn lle hynny gan awdurdod cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig,
(d) yn gorfodi, neu'n ymwneud fel arall, â ffi mewn perthynas â swyddogaeth sy'n ymarferadwy gan awdurdod cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig,
(e) yn creu, neu'n ehangu cwmpas, trosedd,
(f) yn creu neu'n diwygio pŵer i ddeddfu, neu
(g) sy'n diwygio'r Ddeddf hon.

Mae unrhyw OS sy'n cynnwys unrhyw rai o'r darpariaethau a restrir yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon